# Grantiau Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026
# Pecyn Cymorth a Chanllawiau i Ymgeiswyr

Mae'r pecyn cymorth yma'n cynnig gwybodaeth ychwanegol a chanllawiau i ymgeiswyr ar gyfer rhaglen **Grantiau Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026**. Mae'n esbonio'r math o brosiectau mae'r rhaglen yn eu cefnogi, pwy sy'n gallu ymgeisio, sut mae'r broses gyllido'n gweithio, beth sy'n gwneud cais cryf, a'r hyn y dylai ymgeiswyr ei ystyried a'i baratoi cyn cyflwyno cais. Mae hefyd yn cynnwys disgrifiadau defnyddiol o dermau allweddol, canllawiau ymarferol a syniadau ac awgrymiadau i helpu ymgeiswyr lunio cynigion clir, cymwys a chystadleuol.

## Cynnwys


1. Beth yw Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant? ..... 2
3. Gwybodaeth allweddol ..... 3
4. Gwledydd sy'n cymryd rhan a'r cyllid sydd ar gael ..... 4
5. Pwy sy'n gallu ymgeisio? ..... 5
7. Pa fath o geisiadau sydd ddim yn gymwys? ..... 7
8. Cyfnod cyflawni'r prosiect ..... 8
9. Meini prawf asesu ..... 8
10. Canllaw cyllidebu ..... 9
    10.1 Costau hygyrchedd ..... 10
        10.1.1 Costau hygyrchedd i gynulleidfa a chyfranogwyr ..... 10
        10.1.2 Costau hygyrchedd personol ..... 10
11. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ..... 10
12. Cynaliadwyedd amgylcheddol a gwerth cymdeithasol ..... 11
13. Rheoli risg a diogelu ..... 11
14. Sut i wneud cais ..... 12
15. Gwybodaeth angenrheidiol ..... 13
16. Dogfennau ategol ..... 13
17. Gwirio eich cais ..... 13
18. Amserlen ..... 14
19. Cysylltu â ni a gwybodaeth bellach ..... 14

BRITISH COUNCIL

# 1. Beth yw Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant?

**Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant** yw prif raglen grantiau celfyddydau'r British Council. Mae'n cefnogi partneriaethau a hybu cydweithredu diwylliannol rhwng artistiaid, ymarferwyr creadigol, gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau a sefydliadau celfyddydol yn y DU ac yn rhyngwladol.

Yn 2026, rhaglen **Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant** yw ein prif gynnig grant ar gyfer prosiectau cydweithio diwylliannol rhyngwladol. Mae'n cefnogi gweithgareddau a fyddai cyn hyn wedi cael cymorth gan wahanol raglenni celfyddydau'r British Council, gan gynnwys **Cysylltu Gwyliau Dwyflynyddol Celfyddydau Gweledol** a'r **Rhaglen Grantiau ar gyfer Gwyliau a Gwyliau Dwyflynyddol ym meysydd Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau**. Wrth ddod â'r cyfleoedd hyn at ei gilydd, gall ymgeiswyr wneud cais drwy un alwad agored, a dilyn llwybr ymgeisio cliriach a symlach. Rydym hefyd wedi cynyddu'r nifer o wledydd ledled y byd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, gan greu mwy o gyfleoedd i bartneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol gysylltu a chydweithio. Bydd rownd grantiau rhaglen 2026 yn dyfarnu gwerth tua **£1.3 miliwn** o grantiau i hybu cydweithredu diwylliannol rhyngwladol.

Mae'r rhaglen yn hybu cysylltiadau ystyrlon, cyfnewid trawsddiwylliannol a chydweithredu hirdymor rhwng y DU a'r gwledydd ledled y byd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Gall prosiectau adlewyrchu amrywiaeth eang o themâu a ffurfiau celfyddydol, gan gynnwys: Celfyddydau Gweledol; Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau; Cerddoriaeth; Llenyddiaeth, Theatr a Dawns; a Ffilm.

Mae'r rhaglen wedi cael ei llunio i gefnogi ymarferwyr creadigol, gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau, artistiaid, sefydliad, gwyliau, gwyliau dwyflynyddol, hybiau a mentrau cydweithredol sy'n ateb gofynion y meini prawf ac sy'n gallu dangos eu bod yn meithrin cysylltiadau a hybu cydweithio rhwng y DU a gwlad arall sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ('gwledydd cyfranogol cymwys').

Mae mwy o wybodaeth am waith y British Council ym maes y celfyddydau a diwylliant ar gael ar ein gwefan: https://arts.britishcouncil.org/our-work

# 2. Beth yw amcanion y rhaglen?

Mae'r rhaglen yn anelu i:

- Gefnogi mentrau cysylltu, cyfnewid a chydweithio newydd ar draws y celfyddydau, diwylliant, a sectorau creadigol yn y DU a gwledydd cyfranogol cymwys.
- Hybu cyd-greu, datblygu partneriaethau, a meithrin cysylltiadau rhyngwladol hirdymor.
- Hwyluso cydweithredu trawsddiwylliannol a rhyng-ddisgyblaeth, cyfnewid gwybodaeth, a rhannu dysgu.

- Hybu gweithgareddau diwylliannol cynhwysol, hygyrch, sy’n gyfrifol yn amgylcheddol, ac o werth cymdeithasol.
- Cryfhau cysylltiadau creadigol a diwylliannol rhwng y DU a gwledydd cyfranogol cymwys.

Dylai ceisiadau ddangos yn glir sut bydd y partneriaid yn gweithio gyda’i gilydd, beth fydd cyfraniad pob partner a sut bydd y prosiect yn dod â budd i’r ddwy ochr. Dylai ddangos sut bydd y partneriaid yn meddwl yn greadigol ar y cyd, cynnal gweithgarwch ar y cyd, ac ymroi i broses gydweithio glir sy’n arwain at ganlyniad, allbwn, a/neu broses.

# 3. Gwybodaeth allweddol

| | |
|---|---|
| **Dyddiadau’r broses ymgeisio** | Ceisiadau’r agor am 12:00 (amser y DU) ar **17 Mehefin 2026**, ac yn cau am 23:59 (amser y DU) ar **12 Awst 2026.** |
| **Pwy sy’n gallu ymgeisio?** | Unigolion a sefydliadau cymwys, gan gynnwys:<br>• artistiaid<br>• ymarferwyr creadigol<br>• gweithwyr proffesiynol ym maes diwylliant<br>• gwyliau<br>• gwyliau dwyflynyddol<br>• hybiau<br>• rhwydweithiau<br>• mentrau cydweithredol |
| **Gofynion o ran partneriaid y prosiect** | O leiaf un partner wedi’i leoli yn y DU, ac o leiaf un partner wedi’i leoli mewn gwlad gyfranogol gymwys. |
| **Ffurfiau celfyddydol a themâu** | Yn agored i amrywiaeth eang o bynciau/themâu, ffurfiau celf, treftadaeth ddiwylliannol a sectorau creadigol. |
| **Arian cyfred y gyllideb** | Rhaid cyflwyno cyllidebau mewn punnoedd (GBP). |
| **Swm y grant** | Mae swm uchaf grantiau’r rhaglen yn amrywio o wlad i wlad. Gwiriwch y tabl o wledydd sy’n cymryd rhan yn y rhaglen. |
| **Cyfnod cyflawni’r prosiect** | Mis Hydref 2026 i Hydref 2027. Rhaid cwblhau’r holl weithgaredd a ariennir erbyn Hydref 2027. |
| **Adroddiad terfynol** | Rhaid ei gyflwyno o fewn mis i gwblhau’r prosiect, a dim hwyrach na mis Tachwedd 2027. |
| **Iaith y cais** | Rhaid cyflwyno ceisiadau yn Saesneg. |
| **Platfform ar gyfer cyflwyno’r cais** | Rhaid defnyddio platfform Good Grants i gyflwyno ceisiadau. |

# 4. Gwledydd sy'n cymryd rhan a'r cyllid sydd ar gael

**Gall y grantiau sydd ar gael, ystod y grantiau, a nifer y grantiau a ddyfernir amrywio o wlad i wlad.**

**Caiff yr uchafswm grant ei ddyfarnu fesul prosiect neu bartneriaeth, nid fesul partner unigol.** Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i'r grant dalu am holl weithgaredd y bartneriaeth, gan gynnwys costau byw ar gyfer y partner yn y DU a'r partner yn y wlad gyfranogol gymwys.

| Gwledydd Cyfranogol Cymwys | Uchafswm grant | Nodiadau penodol ar gyfer y wlad |
|---|---|---|
| Yr Ariannin | £15k | Ffocws ar newid yr hinsawdd a chynaliadwyedd. |
| Awstralia | £5k | |
| Bangladesh | £15k | |
| Colombia | £15k | Ffocws ar newid yr hinsawdd a chynaliadwyedd. |
| Tsieina | £10k | |
| Yr Aifft | £9k | |
| Indonesia | £10k | |
| Kazakstan | £10k | |
| Kenya | £7.5k | |
| Libanus | £10k | |
| Malaysia | £10k | Ffocws ar newid yr hinsawdd a chynaliadwyedd. |
| Mecsico | £8k | Ffocws ar newid yr hinsawdd a chynaliadwyedd. |
| Seland Newydd | £5k | |
| Nigeria | £10k | |
| Pacistan | £15k | |
| Palestina | £10k | |
| Periw | £15k | Ffocws ar newid yr hinsawdd a chynaliadwyedd. |
| Ynysoedd y Philipinau | £10k | |
| Saudi Arabia | £15k | |
| De Affrica | £6.5k | |
| Tanzania | £5k | |

| Gwledydd Cyfranogol Cymwys | Uchafswm grant | Nodiadau penodol ar gyfer y wlad |
|---|---|---|
| Gwlad Thai | £10k | |
| Tiwnisia | £10k | |
| Twrci | £10k | |
| Yr Emiradau Arabaidd Unedig | £10k | |
| Wcráin | £10k | Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o drefniant priodol i reoli risgiau yng nghysgod rhyfel, cynllun diogelu, ac ymrwymiad i ddilyn cyngor teithio'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) ar gyfer unrhyw weithgaredd wyneb yn wyneb gan unigolion sy'n teithio o'r tu allan i Wcráin. Yn Wcráin, rhaid i unigolion fod wedi cofrestru fel entrepreneur preifat (ФОП) er mwyn gallu gweithredu fel Partner Arweiniol a derbyn cyllid grant. |
| Uzbekistan | £10k | |
| Venezuela | £10k | Ffocws ar newid yr hinsawdd a chynaliadwyedd. |
| Fietnam | £10k | |
| Gwledydd y Balcanau Gorllewinol | £10k | Gwledydd cymwys: Albania, Bosnia- Hertsegofina, Kosovo, Montenegro, Gogledd Macedonia, Serbia. |

# 5. Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Wrth wneud cais i'r rhaglen, rhaid sicrhau bod o leiaf un partner wedi'i leoli yn y DU, ac o leiaf un partner wedi'i leoli mewn gwlad gyfranogol gymwys. Rhaid i bob partner sy'n cymryd rhan ddangos eu bod wedi sefydlu'n gyfreithlon yn y wlad bartner y cyfeirir ati yn y cais - ar adeg cyflwyno'r cais a thrwy gydol cyfnod gweithgaredd y prosiect. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi cofrestru'n briodol, gan gynnwys at ddibenion treth lle bo gofyn. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad lleol perthnasol yn y wlad y maent wedi lleoli ynddi a lle cynhelir y gweithgaredd a ariennir.

Gall ymgeiswyr cymwys gynnwys:

- Artistiaid ac ymarferwyr creadigol,
- Sefydliadau celfyddydol a diwylliannol,
- Gwyliau a gwyliau dwyflynyddol,
- Gweithwyr proffesiynol ym maes diwylliant,
- Hybiau, rhwydweithiau a mentrau cydweithredol creadigol,

- Sefydliadau sy'n gweithio ar draws y celfyddydau, diwylliant a'r sectorau creadigol.

Gofynion cymhwysedd:

- O ran sefydliadau – rhaid i'r partneriaid yn y DU a'r gwledydd cyfranogol cymwys fod yn endidau ar wahân.
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos fod ganddynt statws cyfreithiol, trethol neu statws cofrestredig sy'n caniatáu iddynt dderbyn a rheoli cyllid grant yn y wlad y maent wedi lleoli ynddi neu'n gweithredu ynddi.
- Mae'n bosibl y bydd rhaid cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu drethol penodol y wlad gyfranogol gymwys. Lle bo'n berthnasol, mae'n bosib y bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu rhifau cofrestru, gwybodaeth drethol, prawf o statws cyfreithiol neu ddogfenaeth gyfatebol fel rhan o'r broses ymgeisio neu at ddibenion diwydrwydd dyladwy.
- Dylai ceisiadau ar gyfer prosiectau a drefnir gan (neu sy'n rhan o) wyliau Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau gael eu cyflwyno gan sefydliad yr ŵyl neu'r ŵyl ddwyflynyddol, yn hytrach na gan artistiaid, dylunwyr neu ymarferwyr unigol.
- Ni allwn dderbyn ceisiadau gan gyrff ariannu.

**Partneriaid ychwanegol**
Rhaid i geisiadau gynnwys o leiaf un partner wedi'i leoli yn y DU, ac o leiaf un partner wedi'i leoli mewn gwlad gyfranogol gymwys.

Gall prosiectau hefyd gynnwys partneriaid ychwanegol o wledydd neu leoliadau eraill cyhyd â'u bod yn ychwanegu gwerth i'r gweithgaredd arfaethedig. Ond, dim ond ar gyfer talu costau gweithgarwch y partner yn y DU a'r partner mewn gwlad gyfranogol gymwys y gellir defnyddio cyllid grant y rhaglen hon. Ni ellir talu costau unrhyw bartneriaid ychwanegol o wledydd neu leoliadau nad sydd ar restr gwledydd/lleoliadau cymwys y rhaglen. Dylai ymgeiswyr roi esboniad clir o rôl unrhyw bartneriaid ychwanegol a natur eu cyfraniad i'r prosiect. Rydym yn argymell yn gryf fod holl bartneriaid pob prosiect, gan gynnwys partneriaid ychwanegol, yn cytuno ar rolau, cyfrifoldebau a dulliau gweithio clir cyn i'r prosiect gychwyn. Gellir amlinellu hyn mewn cytundeb rhyng-bartneriaeth neu femorandwm o ddealltwriaeth.

# 6. Pa fath o weithgareddau mae'r rhaglen yn eu cefnogi?

Gall rhaglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant gefnogi amrywiaeth o weithgarwch cydweithredol, cyhyd â bod ffocws y cynnig ar bartneriaeth ystyrlon rhwng y DU a gwlad gyfranogol gymwys. Gellir cyflawni gweithgaredd prosiect yn ddigidol, wyneb yn wyneb neu drwy ddull hybrid.

Gall prosiectau cymwys fod ar unrhyw bwynt o ran datblygiad, ymchwil, neu gyflawniad.

Gall gweithgarwch cymwys gynnwys:

- Cyd-greu a datblygu artistig ar y cyd*.

- Preswyliadau a mentrau cyfnewid.
- Gweithdai, paneli, sgyrsiau ac anerchiadau a gweithgareddau rhannu gwybodaeth.
- Ymchwil a datblygu.
- Arddangosfeydd, perfformiadau, cyflwyniadau, sioeau arddangos ar y cyd.
- Gweithgareddau sy’n gysylltiedig â gwyliau neu wyliau dwyflynyddol.
- Gweithgarwch arddangos, gan gynnwys gwyliau dwyflynyddol, wythnosau dylunio, a chymryd rhan mewn gwyliau lle mae’r elfen arddangos yn rhan o (neu’n ganolog i) brosiect cydweithredol rhwng y partner yn y DU a’r partner mewn gwlad gyfranogol gymwys. Gyda phrosiectau o’r fath, gellir dangos yr elfen gydweithredol drwy’r modd mae’r gwaith yn cael ei gynhyrchu, curadu, cyflwyno, dehongli, neu’i roi mewn cyd-destun fel rhan o ddigwyddiad neu weithgaredd arddangos.
- Cyfnewid rhwng curaduron, cyfranogiad artist neu ddylunydd, a’r broses o ddatblygu, curadu, dehongli, neu roi gwaith mewn cyd-destun ar gyfer gwahanol gynulleidfa(oedd).
- Rhaglenni cyhoeddus a rhaglenni ymgysylltu â chynulleidfa.
- Hybu datblygiad artist, dylunydd, ymarferydd neu gyfranogwr.
- Datblygu proffesiynol a rhwydweithio.
- Meithrin a datblygu gallu a rhannu dysgu.
- Gweithgarwch rhyngddisgyblaethol neu drawsgelfyddydol.
- Cydweithio trawsddiwylliannol a rhannu dysgu.
- Cefnogaeth hygyrchedd – yn gysylltiedig â chyflawni prosiect.

**Am eglurhad manylach o’n diffiniad o ‘gydweithredu’ (neu ‘cydweithio’), a sut y gall hyn fod yn berthnasol i’ch gweithgaredd arfaethedig, gweler ein Cwestiynau Cyffredin*

# 7. Pa fath o geisiadau sydd ddim yn gymwys?

Dyma enghreifftiau o weithgareddau sydd ddim yn gymwys:

- Prosiectau heb bartner yn y DU.
- Prosiectau heb bartner mewn gwlad gyfranogol gymwys.
- Prosiectau gyda dau bartner craidd wedi’u lleoli yn yr un wlad.
- Prosiectau gyda phartneriaid sy’n chwaer sefydliadau i’w gilydd neu’n rhan o’r un sefydliad ond sy’n gweithio mewn gwledydd gwahanol.
- Prosiectau sydd ddim yn canolbwyntio’n bennaf ar y celfyddydau, diwylliant neu’r sector creadigol.
- Prosiectau at ddibenion masnachol yn unig, heb amcanion artistig, diwylliannol neu gydweithredol clir.
- Prosiectau sy’n rhedeg y tu hwnt i’r cyfnod cyflawni cymwys.
- Ceisiadau sy’n gofyn am fwy nag uchafswm y grant a gynigir gan y wlad berthnasol.
- Ffurflenni cais a gyflwynir mewn iaith heblaw Saesneg.
- Ffurflenni cais anghyflawn neu geisiadau sydd ddim yn rhoi digon o fanylion i’w hasesu.

- Ceisiadau gan gyrff ariannu.
- Gweithgaredd sydd wedi digwydd yn barod neu weithgaredd sydd wedi ysgwyddo costau'n barod.

Nid yw'r uchod yn rhestr gynhwysfawr. Dylai ymgeiswyr ddarllen y canllaw a'r ffurflen gais gyfan yn ogystal â'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin cyn gwneud cais.

# 8. Cyfnod cyflawni'r prosiect

Rhaid cyflawni unrhyw brosiect **rhwng mis Hydref 2026 a mis Hydref 2027**.

Dylai ymgeiswyr sicrhau y gellir cyflawni'r gweithgarwch arfaethedig o fewn y cyfnod cyflawni cymwys yn ogystal â chadw at yr amserlen a'r gyllideb a gyflwynir. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr holl weithgarwch a ariennir gan y prosiect wedi cael ei gyflawni erbyn mis Hydref 2027. Dylid cyflwyno adroddiad terfynol y prosiect o fewn mis i gyflawni'r prosiect, a dim hwyrach na mis Tachwedd 2027 er mwyn hwyluso'r broses werthuso ac adrodd ar effaith y rhaglen.

O ran prosiectau sy'n gysylltiedig â rhaglenni gwyliau neu wyliau dwyflynyddol penodol, cyn cyflwyno cais dylai ymgeiswyr gadarnhau fod digwyddiadau allweddol y prosiect yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod cyflawni cymwys. Mae'n bosib y gellir ystyried achosion lle cynhelir digwyddiad arddangos yr ŵyl, gŵyl ddwyflynyddol, neu'r sioe arddangos dan sylw ym mis Tachwedd 2026.

# 9. Meini prawf asesu

Bydd ceisiadau cymwys yn cael eu hasesu yn erbyn pump o feini prawf.

| Maen Prawf | Pwysiad | Yr hyn y byddwn yn ei asesu |
|---|---|---|
| **Ansawdd a gwerth artistig/creadigol** | 25% | Cryfder, perthnasedd ac ansawdd y cynnig creadigol, gan gynnwys hanes blaenorol a chyd-destun. |
| **Partneriaeth a chydweithredu** | 25% | Ansawdd y bartneriaeth, y budd i bawb sy'n cymryd rhan, y model ar gyfer cydweithio, a'r gallu i ddangos rolau clir. |
| **Dichonoldeb a rheolaeth y prosiect** | 25% | Pa mor realistig yw'r prosiect? Pa mor dda yw'r cynllunio? Pa mor debygol y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlen a'r gyllideb arfaethedig? |
| **Ymgysylltiad â darpar gynulleidfa a/neu gyfranogwyr, ac effaith y prosiect** | 10% | Nod y prosiect o ran cyrhaeddiad, budd, effaith a gwaddol. |

| Maen Prawf | Pwysiad | Yr hyn y byddwn yn ei asesu |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwerth cymdeithasol** | 15% | Sut mae cynllun, dull gweithredu a chanlyniadau arfaethedig y prosiect yn ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, hygyrchedd a mynediad, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwerth cymdeithasol ehangach |

# 10. Canllaw cyllidebu

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cyllideb glir mewn punnoedd (GBP) ar gyfer y prosiect arfaethedig.

Dylai'r gyllideb:

- fod yn realistig a chymesur â gweithgaredd arfaethedig y prosiect
- dangos sut bydd y grant yn cael ei ddefnyddio
- cynnwys ffioedd teg a chostau priodol
- cynnwys costau hygyrchedd, cyfieithu, teithio, marchnata, costau rheoli'r prosiect, costau cynhyrchu, costau gwneuthuriad a deunyddiau, costau cludiant, gosod, dad-osod, ac arian wrth gefn* lle bo hynny'n berthnasol a chymesur â'r gweithgaredd arfaethedig
- dangos yn glir pa bartner sy'n gyfrifol am ba gostau
- esbonio natur unrhyw incwm arall sydd wedi'i gadarnhau neu incwm ar y gweill
- dangos sut mae'r gyllideb yn hybu cydweithredu teg a sicrhau gwerth i'r ddwy ochr.

Rydym yn argymell rhannu unrhyw gyllid grant mor gyfartal â phosibl rhwng y partner yn y DU a'r partner yn y wlad gyfranogol gymwys. Fel canllaw, dylai ymgeiswyr geisio sicrhau rhaniad 50/50 lle bo hynny'n briodol a realistig ar gyfer y prosiect arfaethedig.

Rydym hefyd yn cydnabod nad yw rhaniad 50/50 yn bosibl bob tro. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd un partner yn wynebu costau uwch o ran dosbarthu, teithio, llogi canolfan(nau), costau cynhyrchu, cefnogaeth hygyrchedd, ffioedd artistiaid neu logisteg leol. Rydym hefyd yn deall y gall costau amrywio'n fawr rhwng gwledydd. Er enghraifft, gall costau llety, teithio, costau neu ffioedd canolfan(nau) fod yn uwch mewn un wlad nag mewn gwlad arall.

Mewn achosion lle nad yw'r gyllideb yn cael ei rhannu'n gyfartal, rhaid i ymgeiswyr roi esboniad clir o hynny yn nodiadau'r gyllideb, a dangos sut mae'r rhaniad arfaethedig yn deg, cymesur ac yn hwyluso partneriaeth gytbwys.

**Lle bo'n briodol, annogir ymgeiswyr i gynnwys trefniant ariannol wrth gefn rhesymol fel rhan o gyllideb eu prosiect. Dylai hyn fod yn gymesur â maint a natur y prosiect a'i seilio ar asesiad clir o unrhyw ddarpar risgiau o ran cyflawni gweithgaredd y prosiect - fel cynnydd mewn costau teithio, amrywiadau arian cyfred, costau cludo, costau canolfannau neu unrhyw newidiadau nad oes modd eu rhagweld.*

## 10.1 Costau hygyrchedd

### 10.1.1 Costau hygyrchedd i gynulleidfa a chyfranogwyr

Rhaid i ymgeiswyr gynnwys unrhyw gostau hygyrchedd sy'n gysylltiedig â'r prosiect ym mhrif gyllideb a chynllun y prosiect. Mae hynny'n cynnwys unrhyw gostau ar gyfer sicrhau bod gweithgareddau, digwyddiadau, ffyrdd o gyfathrebu neu waith ar gyfer y cyhoedd yn hygyrch i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr.

Rhaid cynnwys y costau hyn fel rhan o'r cyfanswm grant mwyaf sydd ar gael i brosiect yn y wlad berthnasol.

### 10.1.2 Costau hygyrchedd personol

Gall ymgeiswyr wneud cais am gostau hygyrchedd personol ar ben cyllideb y prosiect cyhyd â'u bod yn darparu tystiolaeth fod hynny'n angenrheidiol i alluogi tîm cyflawni craidd y prosiect i gyflawni'r prosiect.

Dim ond ar gyfer gofynion hygyrchedd personol y tîm cyflawni mae'r costau hyn yn berthnasol. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys dehonglwyr iaith arwyddion, gweithwyr cefnogi neu gostau rhesymol ar gyfer offer neu feddalwedd arbenigol sydd ei angen ar dîm craidd y prosiect.

Noder nad ydym yn gwarantu talu costau hygyrchedd, ond byddwn yn ceisio cefnogi gofynion hygyrchedd a geisir lle bo'n bosibl. Noder hefyd nad yw hyn yn cynnwys costau gofal plant ar hyn o bryd.

# 11. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r British Council yn croesawu ceisiadau sy'n rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o'r cychwyn cyntaf. Dylai ymgeiswyr esbonio sut bydd y prosiect yn nodi a mynd i'r afael â rhwystrau, hybu cyfranogiad teg ac ystyrlon, a chynnwys amrywiaeth o bobl, safbwyntiau a phrofiad.

Gall hyn gynnwys:

- Canolfannau, gweithgareddau, ffyrdd o gyfathrebu a dulliau marchnata hygyrch.
- Dehongli iaith arwyddion, capsiynau byw neu adnoddau cymorth hygyrchedd eraill.
- Gweithio gyda grwpiau neu gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Sicrhau tâl teg ac amodau gwaith teg i bartneriaid a chyfranogwyr.
- Cyllidebu'n briodol i ateb gofynion hygyrchedd a chynhwysiant.
- Ystyried ffyrdd gwahanol o alluogi pobl i ymgysylltu a chymryd rhan.

# 12. Cynaliadwyedd amgylcheddol a gwerth cymdeithasol

Dylai ymgeiswyr ystyried sut y gellir lleihau effaith y prosiect ar yr amgylchedd ac ehangu gwerth cymdeithasol y prosiect i bobl, cymunedau a'r sector.

Gall hyn gynnwys:

- Cwtogi ar deithio dianghenraid a manteisio ar opsiynau teithio carbon isel lle bo'n briodol.
- Cynnal rhai cyfarfodydd, sesiynau cynllunio neu weithgareddau eraill ar-lein lle mae hynny'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Defnyddio cyflenwyr, deunyddiau, canolfannau neu gymorth cynhyrchu lleol lle bo'n bosibl.
- Lleihau gwastraff ac ail-ddefnyddio, ail-bwrpasu neu ail-gylchu deunyddiau.
- Ystyried defnyddio dulliau cynhyrchu, gwneuthuro, gosod a dad-osod cynaliadwy.
- Cynllunio'n effeithiol ar gyfer cludo, cludiant llwythau neu ddanfon nwyddau.
- Cefnogi datblygu sgiliau, cyfnewid gwybodaeth neu ddatblygu proffesiynol.
- Creu budd ehangach i'r gymuned, y gynulleidfa neu'r sector – y tu hwnt i weithgaredd penodol y prosiect.
- Hybu cyfranogiad cynhwysol, partneriaethau hirdymor, rhwydweithiau, gwaddol, a budd ehangach i'r gymuned neu'r sector.

# 13. Rheoli risg a diogelu

Rhaid i ymgeiswyr ddangos fod y prosiect yn realistig a'u bod wedi ystyried y prif risgiau.

Gallai hynny gynnwys:

- Amhariadau ar deithio neu broblemau fisa.
- Pwysau ar y gyllideb neu amrywiadau arwyddocaol yng nghyfradd gyfnewid arian cyfred.
- Argaeledd partneriaid.
- Risgiau diogelu.
- Rhwystrau i fynediad / rhwystrau hygyrchedd.
- Risgiau diogelwch neu beryglon gwleidyddol.
- Risgiau gyda chludiant, gosod neu ganolfannau.
- Tywydd, gwrthdaro, gohiriadau neu amhariadau.
- Oedi o ran cyflawni.

Dylai ymgeiswyr esbonio sut bydd risgiau o'r fath yn cael eu rheoli a pha drefniadau wrth gefn sydd ganddynt. Lle bo'n berthnasol, dylai ymgeiswyr ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni gwaith mewn gwledydd lle mae ansefydlogrwydd, rhyfel, gwrthdaro, aflonyddwch gwleidyddol, sancsiynau, cyfyngiadau ar deithio neu amodau diogelwch cyfnewidiol.

Dylai ymgeiswyr gynnwys cynlluniau wrth gefn realistig, a bod yn barod i addasu'r prosiect os yw amgylchiadau'n newid. Gall hynny olygu gohirio gweithgaredd(au), trefniant cyflawni gwahanol, newid cynlluniau teithio, neu gyflawni digidol/hybrid lle bo hynny'n briodol ac wedi'i gytuno gyda'r British Council ymlaen llaw. Annogir ymgeiswyr i gynnwys trefn wrth gefn resymol a chymesur yn eu cyllideb i helpu rheoli unrhyw newidiadau anisgwyl, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn costau teithio, llety, cludiant, cynhyrchu neu ddeunyddiau. Dylid dangos hyn yn glir yn y gyllideb yng nghynllun risg a chynllun cyflawni'r prosiect.

O ran digwyddiadau arddangos, arddangosfeydd, gosodweithiau neu weithgaredd mewn gŵyl ffisegol, dylai ymgeiswyr ystyried risgiau fel amhariadau ar deithio, oedi wrth gludo, problemau gosod, newidiadau i ganolfannau, yswiriant, gohiriadau a newid dyddiadau.

Mae'n bosib y bydd angen trefniant neu ddogfennaeth ddiogelu a/neu risg ychwanegol ar gyfer prosiectau lle mae plant, pobl ifanc neu oedolion bregus yn cymryd rhan, neu ar gyfer gweithgareddau gyda'r cyhoedd neu weithgareddau lle mae risg neu berygl uwch.

Ar gyfer prosiectau gyda phartneriaid yn Wcráin, mae'n bosib y bydd angen ateb gofynion cyfreithiol, trethol, diogelu, diogelwch a theithio ychwanegol. Dylai ymgeiswyr wirio'r adran benodol ar gyfer Wcráin yn ofalus cyn gwneud cais.

# 14. Sut i wneud cais

Rhaid defnyddio platfform ceisiadau Good Grants i gyflwyno ceisiadau cyn y dyddiad cau a nodir.

Cyn gwneud cais, dylai ymgeiswyr wirio eu bod wedi:

- Darllen y Cwestiynau Cyffredin a'r canllaw ar gyfer defnyddio adnoddau Deallusrwydd Artiffisial, llên-ladrad, eiddo deallusol, a gwneud newidiadau i geisiadau sydd wedi cael eu cymeradwyo.
- Gwirio'r meini prawf cymhwysedd yn ofalus.
- Cadarnhau fod y partner yn y DU a'r partner yn y wlad gyfranogol yn gymwys.
- Cytuno ar rolau, cyfrifoldebau, ffyrdd o weithio a'r gyllideb gyda'r holl bartneriaid sy'n cymryd rhan.
- Sicrhau bod unrhyw ddogfennau ategol gofynol yn barod ac ar gael.
- Sicrhau bod y cais wedi'i ysgrifennu yn Saesneg.
- Gadael digon o amser i gwblhau a chyflwyno'r cais cyn y dyddiad cau.

**Dylai ymgeiswyr sydd angen cymorth hygyrchedd neu unrhyw addasiadau i gwblhau'r cais gysylltu â'r British Council drwy'r Ffurflen Ymholiadau yn Adran 19.**

Dylai ceisiadau am gymorth hygyrchedd gynnwys manylion priodol, fel y math o gymorth sydd ei angen, amcangyfrif o unrhyw gostau cysylltiedig, esboniad byr o'r hyn mae angen y cymorth ar ei gyfer a sut y bydd yn helpu'r ymgeisydd i gwblhau'r cais. Annogir ymgeiswyr i gysylltu â ni cyn gynted â phosibl a pheidio gadael ceisiadau am gymorth tan drothwy'r dyddiad cau. Caiff ceisiadau

eu hasesu fesul achos, a byddwn yn anelu i ymateb i geisiadau am gymorth hygyrchedd o fewn 2 i 3 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

# 15. Gwybodaeth angenrheidiol

- Gwybodaeth yn esbonio natur y gweithgaredd arfaethedig a sut mae'n berthnasol yng nghyd-destun y bartneriaeth.
- Gwybodaeth am bob partner - p'un a ydych yn gwneud cais fel unigolyn neu sefydliad.
- Gwybodaeth am amserlen neu linell amser y prosiect.
- Gwybodaeth am gyllideb y prosiect gan gynnwys eich cynllun wrth gefn.
- Gwybodaeth am gynllun rheoli risg y prosiect.
- Gwybodaeth am eich cynllun diogelu os yw plant, pobl ifanc neu oedolion yn cymryd rhan yn y prosiect neu os yw'n cynnwys gweithgaredd risg uchel.

# 16. Dogfennau ategol

- CV neu fywgraffiad - os ydych yn gwneud cais fel unigolyn neu ar gyfer artistiaid, dylunwyr neu ymarferwyr a enwir yn eich cais
- Llythyr Bwriad y Bartneriaeth (templed wedi'i ddarparu).
- Dolenni, portffolio neu enghreifftiau o waith blaenorol, lle bo'n berthnasol.
- Prawf o ganiatâd, trwyddedau, neu lythyron cefnogaeth lle bo hynny'n ofynnol neu'n berthnasol.
- Cadarnhad o'r trefniant rhyngoch chi â gŵyl, gŵyl ddwyflynyddol neu gyflwyniad cyhoeddus, lle bo hynny'n berthnasol.

# 17. Gwirio eich cais

Cyn anfon cais, dylai ymgeiswyr wirio'r canlynol:

- Sicrhau bod y prosiect yn cynnwys un partner yn y DU ac un partner mewn gwlad gyfranogol gymwys.
- Sicrhau bod y partneriaid yn endidau ar wahân, wrth gyflwyno cais ar ran sefydliadau.
- Sicrhau mai'r celfyddydau, diwylliant neu'r sector creadigol yw prif ffocws y prosiect arfaethedig.
- Sicrhau bod y prosiect yn cynnwys cydweithredu ystyrlon.
- Sicrhau bod y gyllideb yn gywir, ac wedi'i chyflwyno mewn punnoedd (GBP); a'i bod o fewn terfynau'r grant sydd ar gael.
- Sicrhau bod amserlen y prosiect o fewn ffiniau cyfnod cyflawni cymwys y rhaglen.
- Sicrhau eich bod wedi ateb pob cwestiwn gofynnol.
- Sicrhau eich bod wedi llwytho pob dogfen ofynnol i fyny.
- Sicrhau mai Saesneg yw'r iaith a ddefnyddiwyd wrth gyflwyno'r cais.

- Sicrhau bod pob partner wedi gwirio a chytuno i'r cais a gyflwynir.
- Dylai ymgeiswyr hefyd ddarllen y Cwestiynau Cyffredin am gyngor ar ddefnydd o adnoddau Deallusrwydd Artiffisial, llên-ladrad, eiddo deallusol a gwneud newidiadau i brosiect sydd wedi'i gymeradwyo.

Ni fydd ceisiadau anghyflawn neu anghymwys yn cael eu hasesu.

# 18. Amserlen

| Camau | Dyddiad |
|---|---|
| **Agor y broses ymgeisio** | 17 Mehefin 2026 am 12:00 (amser y DU) |
| **Dyddiad cau i geisiadau** | 12 Awst 2026 am 23:59 (amser y DU) |
| **Cyfnod gwirio cymhwysedd a'r prif gyfnod asesu** | Mis Awst i Fis Medi 2026 |
| **Hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad y broses** | O 14 Hydref 2026 ymlaen* |
| **Cadarnhau cytundebau grant a chyfranogiad derbynwyr y grant** | Tachwedd 2026 |
| **Cyfnod cyflawni'r prosiect i ddeiliaid grant** | 01 Rhagfyr 2026 i 31Rhagfyr 2027 |
| **Talu cyfran gyntaf y grant (80%)** | Anelir i wneud y taliad erbyn mis Ionawr 2027 – yn ddibynnol ar gyflawni diwydrwydd dyladwy, derbyn pob dogfen ofynnol ac arwyddo'r cytundeb grant. |
| **Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad terfynol** | O fewn 1 mis i gwblhau'r prosiect, a dim hwyrach na 31 Ionawr 2028 |
| **Talu cyfran olaf y grant (20%)** | Yn dilyn cyflwyno a chymeradwyo'r adroddiad terfynol, neu'n unol ag amodau'r cytundeb grant. |

**Noder mai amserlen ddangosol yw hon ac y gellir ei newid – yn ddibynnol ar nifer y ceisiadau a dderbynir, llinell amser y broses asesu, diwydrwydd dyladwy, cytundebu, a gofynion penodol unrhyw wlad gyfranogol gymwys. Ni ddylai ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau gweithgaredd a ariennir gan y rhaglen na mynd i gostau cyn arwyddo cytundeb grant.*

# 19. Cysylltu â ni a gwybodaeth bellach

Os oes unrhyw gwestiynau gan ymgeiswyr am gymhwysedd, cefnogaeth hygyrchedd neu'r broses ymgeisio, dylent gysylltu â'r British Council gan ddefnyddio'r ffurflen ymholiadau swyddogol:

Enquiry Form: Connections Through Culture 2026. Rydym yn anelu i ymateb i ymholiadau **o fewn 2 i 3 diwrnod gwaith** ar gyfartaledd.

Mae mwy o wybodaeth am raglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026 ar gael ar wefan y British Council: Connections Through Culture Grants | British Council Arts